Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

# Y FANYLEB PERSON

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau |
| **TEITL Y SWYDD** | Ymarferydd Arbenigol DC a Ph ( Ffenics) |
| **RHIF Y SWYDD** | 502251 |
| **GRADD** | Gradd 7 |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â** serenig* at ddibenion llunio rhestr fer. Sicrhewch yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o fewn *Adran Profiad a Gwybodaeth* Arall). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd. Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | **Tystysgrif Lefel 2 Cymru Agored mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid neu gymhwyster cyfatebol a/neu brofiad perthnasol blaenorol o wneud gwaith ieuenctid.** | **Hanfodol** | **Cais*/** Y Broses Ddethol |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad o ddarparu cyflwyniadau i ystod o wahanol gynulleidfaoedd.** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol |
| | **Profiad o arfer gweithio effeithiol a diogel mewn amrywiol amgylcheddau.** | **Hanfodol*** | **Cais*/** Y Broses Ddethol |
| | **Y gallu i gynllunio a goruchwylio gweithgareddau pobl eraill.** | **Hanfodol*** | **Cais*/** Y Broses Ddethol |
| | Profiad o ddefnyddio pecynnau cymwysiadau Microsoft Office; Word, Excel, Outlook, PowerPoint. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Gallu ymateb yn hyblyg ac addasu arddull cyflwyno ar gyfer grwpiau / unigolion. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Dymunol | Ffurflen Gais / Y Broses Ddethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arddull Bersonol** | **Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chydnerth mewn sefyllfaoedd hynod heriol**<br><br>Y gallu i anwesu a rhoi gwerth i amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa<br><br>Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llwyr â pholisïau sefydliadol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir | **Hanfodol***<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol | **Cais*/** Y Broses Ddethol<br><br>Y Broses Ddethol<br><br>Y Broses Ddethol |
| **Rhyngbersonol** | Y gallu i arwain, ymroi ac ysgogi eraill o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r Gymuned ill dau.<br><br>**Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd ***<br><br>Yr ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion, timau ac eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol. | Hanfodol<br><br>**Hanfodol***<br><br>Hanfodol | Y Broses Ddethol<br><br>**Cais*/** Y Broses Ddethol<br><br>Y Broses Ddethol |
| **Tasg** | **Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth fyw o'r amgylchfyd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol***<br><br>Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol. | **Hanfodol***<br><br>Hanfodol | **Cais*/** Y Broses Ddethol<br><br>Y Broses Ddethol |

D.S: Canolfan weinyddol y rôl hon fydd Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

Bydd canran uchel o'r gwaith yn cynnwys tasgau ymarferol allanol.

Bydd angen Archwiliad Estynedig gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (ADG) mewn achos cais llwyddiannus. Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

disability confident COMMITTED